

**PRIFYSGOL BANGOR
ASESIAD EFFAITH CYDRADDOLDEB**

Dylid cynnwys asesiad effaith cydraddoldeb fel rhan hanfodol o'r broses o ddatblygu polisiâu newydd, adolygu polisiâu a gwneud penderfyniadau strategol a gweithrediadol er mwyn sicrhau y dileeir unrhyw anghydraddoldeb a gwahaniaethu neu y rhoddir sylw iddynt cyn gynted â phosib.

Mae'r rhestr wirio hon yn rhan o ddull y brifysgol o ymdrin ag asesu effaith cydraddoldeb a dylid ei defnyddio i asesu effaith y polisi ar grwpiau sydd â nodweddion gwarchoddedig fel y nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

GRWPYIAU CYDRADDOLDEB:

Oedran	Anabledd	Ail-ddynodi gender	Beichiogrwydd a mamolaeth	Yr iaith Gymraeg
Hil	Crefydd a chred	Rhyw	Cyfeiriadedd rhywiol	Math o gontract
Priodas a phartneriaeth sifil				

Sylwer - Mae'n ymarfer da ystyried materion sy'n ymwneud â'r Gymraeg a math o gontract er bod y meysydd hynny dan ddeddfwriaeth wahanol i Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Enw neu deitl y polisi: -

Rheoliad 01 - Rheoliad ar gyfer Rhaglenni Hyfforddedig

Gwybodaeth am y polisi:	
Beth yw pwrpas y polisi?	Mae'r rheoliad hwn yn berthnasol i bob myfyriwr sydd ar raglenni hyfforddedig
Pwy sy'n gyfrifol am y polisi?	Pennaeth Gweinyddu Myfyrwyr.
Beth yw cysylltiad y polisi â blaenoriaethau strategol y brifysgol?	Ein cenhadaeth: "profiad cynhwysol". Ein gwerthoedd: "amgylchedd diogel, croesawgar a chynhwysol".
Pa grwpiau sy'n rhanddeiliaid yn y polisi?	Myfyrwyr ar raglenni hyfforddedig.
A gaiff y polisi ei ddefnyddio yn yr un modd ym mhob maes yn y brifysgol?	Caiff.
Nodwch y grwpiau y mae'r polisi'n berthnasol iddynt.	Myfyrwyr ar raglenni hyfforddedig.

A roddwyd ystyriaeth i'r materion canlynol? (un o ofynion Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus)	
A allai unrhyw elfennau o'r polisi fod yn wahaniaethol, boed hynny'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol?	Pwrpas y rheoliad yw sicrhau bod proses deg, dryloyw a chyson ar waith i'r myfyrwyr.
A ellid defnyddio'r polisi i hyrwyddo amrywiaeth a chyfle cyfartal?	
A ellid defnyddio'r polisi i hyrwyddo perthynas dda rhwng pobl?	Bwriad y rheoliad yw sicrhau cydraddoldeb drwyddi draw ymhlith y myfyrwyr hyfforddedig.

Monitro	
Pa ddata meintiol neu ansoddol sydd ar gael yn gefn i'r polisi?	

Ymgynghori	
Pa grwpiau yr ymgynghorwyd â hwy wrth ddrafftio'r polisi?	Pwyllgor Rheoliadau ac Achosion Arbennig y Senedd sy'n gyfrifol am gymeradwyo a diwygio'r rheoliad hwn.
Sut y cynhaliwyd yr ymgynghoriad?	Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd gyda'r rhanddeiliaid allweddol bob blwyddyn a chedwir cofnod ohonynt. Gall unrhyw aelod staff neu fyfyrwr awgrymu newidiadau i'r rheoliad trwy'r Cynorthwydd Cydymffurfio a Rheoliadau.
Sut mae ymgynghori wedi cyfrannu at ddatblygu'r polisi?	Ymgynghorwyd â'r rhanddeiliaid allweddol er mwyn gwneud y rheoliad yn fwy hygyrch i'r defnyddwyr. Mae gan y rheoliad gyloch adolygu sefydlog lle caiff datblygiadau eu nodi.

Gweithredu	
Sut y gweithredir y polisi?	Pwyllgor Rheoliadau ac Achosion Arbennig y Senedd sy'n gyfrifol am gymeradwyo a diwygio'r rheoliad hwn. Bydd y weithdrefn ar gael ar-lein yn www.bangor.ac.uk a hefyd ar ffurf brintiedig ar gais. Hysbysir staff trwy e-bost pan wneir newidiadau.
Pwy fydd yn gyfrifol am weithredu'r polisi?	Y Pennaeth Gweinyddu Myfyrwyr sy'n gyfrifol am reoli'r rheoliad.

Adolygiad Mawrth 2019

Monitro	
Sut caiff y polisi ei fonitro er mwyn sicrhau ei fod yn cyrraedd ei nod?	Mae monitro parhaus ac adroddiadau i Bwyllgor Rheoliadau ac Achosion Arbennig y Senedd yn rhan o galendr blynyddol y brifysgol.
Pwy fydd yn gyfrifol am fonitro'r polisi?	Pwyllgor Rheoliadau ac Achosion Arbennig y Senedd.
Sut caiff y polisi ei fonitro er mwyn sicrhau na wnaiff roi grwpiau penodol dan anfantais?	Caiff unrhyw faterion cydraddoldeb sy'n codi eu harchwilio a rhaid gwneud unrhyw addasiadau rhesymol.
Pryd caiff y polisi ei adolygu i ganfod a yw'n cyrraedd ei nod a'i amcanion?	Adolygir y rheoliad hwn yn flynyddol.

Y goblygiadau o ran adnoddau	
Hyfforddiant – a oes unrhyw ofynion hyfforddi'n gysylltiedig â datblygu, gweithredu neu fonitro'r polisi hwn?	Mae Fframwaith Arfer Da Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol yn disgwyl bod holl staff y brifysgol yn gyfarwydd â'r rheoliad.
Beth yw'r goblygiadau eraill o ran adnoddau (yn cynnwys amser a baich gwaith) o weithredu'r polisi hwn	

ARGYMHELLION A DYDDIAD ADOLYGU	
3 blynedd	
ASESIAD EFFAITH – LLOFNOD A DYDDIAD	
Sue Peet	21 Mawrth 2019